


At y Golygydd



Pennant,
5 Rhos Nant,
Corwen
LL21 9TQ

Annwyl Olygydd,

Dyma bwt o lythyr hefo llun o elor feirch Llangower ger y Bala. Harri Williams, Bryn Cocyn, sydd ar y blaen ac 'rwy'n meddwl yn siwr mai Bobi Morris, Pant y March oedd y gŵr y tu ôl. Gwn fod rheolau caeth gan yr Eglwys ynglŷn â gwisgo'r ceffylau. Popeth yn blaen, dim sêr ar y talcen, na byclau ar yr harnes, na phlethu cynffonnau. Hefyd, roedd yn bwysig iawn cael ceffyl tawel yn y pen agosa i'r arch gan fod oglau'r corff yn ei anesmwytho ac yntau yn strancio, byddai hynny'n ddigon na chai'r ceffyl hwnnw mo'r cyfle byth wedyn i gario'r elor. Mae'n siwr fod yna cofnodion neu'i gilydd yn cael eu cadw yn yr Eglwys, er enghraifft, y cyfnod, dyddiadau, pryd y cafodd ei ddefnyddio ac ers pryd yr oedd yn cael ei chadw mewn cwt yn Llangower. Mae'n siwr fod ei hanes yn werth cael hyd iddo. Tybed all unrhyw un o'r darllenwyr roi mwy o wybodaeth? Mae'n siwr y buasai Bob Owen wrth ei fodd yn chwilio i hanes yr hen elor feirch.

Diolch am Y Casglwr.

Cofion,

EMRYS ROWLANDS.

Perthi,
11 Cae Bryn,
Garth,
Llangollen

Annwyl Olygydd,

Mae'n siwr eich bod yn cael ymatebion lu i erthygl Sydney Davies yn Y Casglwr. Roedd Sarah Corwena Madelina Pugh Jones (dyna sydd ar ei bedd) yn byw yn Llangollen, ac yn

adnabyddus iawn yn y dre. Bu farw yn 1988 yn 93oed.

Rydw i'n meddwl mai hi oedd trefnydd Cynghrair y Cenhedloedd yn y Gogledd yn nau a thri degau'r ganrif ddiwethaf.

Mae'n debyg mai ymdrech i roi cyhoeddusrwydd i waith Cynghrair y Cenhedloedd oedd y gweithgareddau 'Winning the Castles for peace'. Roeddwn yng Nghôr Ysgol Sir Llanrwst yn canu 'O lovely Peace' yng Nghastell Gwydir yn nechrau'r tridegau cyn 1933, beth bynnag. Yr atgof sydd gennyf o'r achlysur yw Parti Gardd ar y lawnt o flaen y Castell. Mae'n rhaid ein bod wedi gorymdeithio yno o'r Ysgol.

Annwyl Olygydd,

Diolch am y Diwrnod Agored ardderchog ym Mhortmeirion; roedd Hilda a minnau wedi mwynhau popeth yn ei gylch ac ym ymwybodol o'r holl waith a wnaethoch wrth drefnu'r achlysur.

Mae Gwawr Jones, 3 Trem y Fenai, Bangor, wedi anfon ataf yn awgrymu'r canlynol ynglŷn â'r llechen yn y sgip (gweler ysgrif yn Y Casglwr diwethaf):

'Llongyfarchiadau ar eich gwaith yn dwyn cerrig coffa John Hughes, Gwallter Mechain a Chynddelw i'w priod llefydd ym Maldwyn. Darllenais yr ysgrif yn 'Y Casglwr' gyda diddordeb mawr. Ga'i gynnig esboniad posibl ar gyfer darganfod y cerrig mewn sgip ym Mangor? Tybed, tybed, a gafodd y llechi eu harchebu gan naddwr cerrig beddi yn yr ardal hon, a thrwy ddigwyddiad (marwolaeth y sawl a drefnodd y gwaith, bil heb ei dalu, a.y.b.) na chafodd y cerrig eu gyrru i Faldwyn?

Cofiaf pan oeddwn yn archebu cerrig bedd fy rhieni, weld sawl carreg (yno) nad oedd neb wedi eu hawlio ar ôl eu cywiro/naddu am y tro cyntaf. Fe fyddai'n ddiddorol gwybod o ba ardal y daeth eich cerrig chwi - mae'n ddigon hawdd adnabod y chwarel oddi wrth lliw'r garreg.'

Tybed a oes un o'r aelodau yn gallu ymateb i hyn?


Cofion cynnes, NIA RHOSIER

Roedd Sarah Pugh Jones yn frwdfrydig iawn dros Eisteddfod Ryngwladol Llangollen ac yn gwisgo ei gwisg Gymreig i'r Eisteddfod. Clywais fod ei phapurau i gyd wedi eu diogelu yn Archifdy Rhuthun, neu yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Dwi ddim yn rhy hen i fwynhau Y Casglwr. Diolch yn fawr.

Cofion cynnes iawn

RHIANNON GRAY DAVIES



Miss Sarah Pugh Jones in genuine Welsh costume pictured with the Amsterdam Choir in 1947 and below in 1981



Miss Pugh Jones was the editor and publisher of the above weekly newspaper. She was a well known and well liked figure in the town, a long time member of the Publicity Committee she did much to publicise and record the Eisteddfod.

O'r llyfr: Fifty Glorious Weeks 1947-1996 Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen

Ty Hen Gapel John Hughes,
PONTROBERT,
Meifod.
Powys.